OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2007 Rhif 2494 (Cy.214)

# ANIFEILIAID, CYMRU

IECHYD ANIFEILIAID

## Gorchymyn Clefydau Anifeiliaid (Diheintyddion a Gymeradwywyd) (Diwygio) (Cymru) Gorchymyn 2007

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *2.50pm ar 28 Awst 2007* |
| *Yn dod i rym - -* | *3.05 pm ar 28 Awst 2007* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer eu pwerau o dan adrannau 1, 7 a 23(f) a (g) o Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981(**1**), yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

### Enwi, cymhwyso a chychwyn

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Clefydau Anifeiliaid (Diheintyddion a Gymeradwywyd) (Diwygio) (Cymru) Gorchymyn 2007:

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

(3) Daw'r Gorchymyn hwn rym am 3.05pm ar 28 Awst 2007.

### Diwygio Gorchymyn Clefydau Anifeiliaid (Diheintyddion a Gymeradwywyd) Gorchymyn 1978

**2.**—(1) Diwygier Gorchymyn Clefydau Anifeiliaid (Diheintyddion a Gymeradwywyd) 1978(**2**) yn unol â'r Erthygl hon.

(2) Yn y tabl yn Atodlen 1 (sy'n rhestru diheintyddion a gymeradwywyd) ar ôl y rhes sy'n cynnwys y cofnod ar gyfer VI-RID mewnosoder

| | | | |
|---|---|---|---|
| "Virkon Advanced | 200* | 250* | 200*" |

(**1**) 1981 p. 22; gweler adran 86(1) i gael y diffiniad o "the Ministers". Trosglwyddwyd swyddogaethau'r "Ministers", i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn rhinwedd O.S. 1999/672 ac O.S. 2004/3044, ac maent yn arferadwy gan Weinidogion Cymru yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

(**2**) O.S. 1978/32, a'r diwygiad perthnasol diwethaf i'r rhestri o ddiheintyddion a gymeradwywyd yw O.S. 2006/3166 (Cy.291).

**Statws** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

*Elin Jones*
Y Gweinidog dros Faterion Gwledig, un o Weinidogion Cymru

28 Awst 2007

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn, sy'n gymwys o ran Cymru, yn diwygio Gorchymyn Clefydau Anifeiliaid (Diheintyddion a Gymeradwywyd) Gorchymyn 1978 ("Gorchymyn 1978"), O.S. 1978/32.

Mae Atodlen 1 o Orchymyn 1978 yn rhestru'r diheintyddion a gymeradwywyd gan Weinidogion Cymru. Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio Atodlen 1 drwy ychwanegu Virkon Advanced at restr y diheintyddion a gymeradwywyd.

Ni luniwyd asesiad effaith rheoleiddiol llawn ar gyfer yr offeryn hwn.